



Cefndir

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun sydd wedi eu paratoi er mwyn darparu gwybodaeth fanylach ac i egluro'r modd y mae'r cynllun yn ymdrin â gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd y papur hwn yn rhoi sylw penodol i Trafnidiaeth. Bydd yn egluro'r wybodaeth gefndirol sydd o gymorth wrth adnabod materion, amcanion ac opsiynau y ddogfen Cynllun Adnau.

Y Cynllun Adnau yw'r ail gam statudol paratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Mae'r CDLI ar y Cyd yn siapiro twf cymunedau o fewn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r dyfodol, a bydd yn nodi'r polisïau a'r dynodiadau tir fydd yn sail i asesu ceisiadau cynllunio.

Bydd y Cynllun Adnau'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi arolygydd annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Os bydd yr arolygydd yn ystyried bod y Cynllun yn un cadarn bydd yn argymhell ei fabwysiadu. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLI ar y Cyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Chynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Gellir darllen y papur testun hwn ar wahân neu ar y cyd â'r Papurau Testun a'r Papurau Cefndir eraill a baratowyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Hwn yw fersiwn 2 o'r papur testun ac mae'n diwedddaru fersiwn 1 cafoddd ei gyflwyno efo'r Cynllun Adnau. Mae'r tabl isod yn crynhoi y newidiadau sydd i'w gweld yn y fersiwn yma:

Crynodeb o Newidiadau i'r Papur Trafod	
Adran	Disgrifiad o'r Newidiadau
1.0 Cyflwyniad	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi newid dyfyniad Polisi Cynllunio Cymru i adlewyrchu Argraffiad 8. • Rhoi cyfeiriad at Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.
3.0 Cyd-destun Polisi Cynllunio Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> • Newid tudalen a rhifau paragraff Polisi Cynllunio Cymru i adlewyrchu Argraffiad 8.
5.0 Dogfennau Trafnidiaeth Rhanbarthol	Newidiadau i adlewyrchu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru mabwysiedig.
8.0 Cyfeiriadau	<ul style="list-style-type: none"> • Ychwanegwyd Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru (2015).

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) / Joint Planning Policy Unit
 Llawr 1af Swyddfa Cyngor Dinas Bangor / 1st Floor Bangor City Council Offices
 Bangor
 LL57 1DT

01286 685003 neu 01766 771000

polisycynllunio@gwynedd.gov.uk

Cyhoeddiad: Fersiwn 2	Chwefror 2016
-----------------------	---------------

Cynnwys

1.0	CYFLWYNIAD.....	3
2.0	DEDDFWRIAETH A BILIAU CYFREDOL.....	5
3.0	CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL.....	7
4.0	DOGFENNAU TRAFNIDIAETH CENEDLAETHOL.....	12
5.0	DOGFENNAU TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL.....	16
6.0	MATERION TRAFNIDIAETH.....	37
7.0	CASGLIADAU.....	48
8.0	CYFEIRIADAU.....	49

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 TROSOLWG

1.1.1 Diben y papur pwnc hwn yw rhoi trosolwg eang o'r strategaethau a chynlluniau sy'n berthnasol i faterion trafndiaeth yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd) sy'n bodoli eisoes.

1.1.2 Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer ei ardal. Y CDLI fydd y cynllun datblygu ar gyfer pob cyngor sir neu bob cyngor bwrdeistref sirol a phob Parc Cenedlaethol, gan ddisodli'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) neu unrhyw gynllun datblygu arall sy'n bodoli.

1.1.3 Mae Llywodraeth Cymru yn datgan ym 'Mholisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 8' (2016, t.123):

“8.1.1 Nod Llywodraeth Cymru yw ehangu'r dewis o ran trafndiaeth a sicrhau hygyrchedd mewn modd sy'n hybu datblygu cynaliadwy ac yn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy: annog sefydlu system drafnidiaeth fwy effeithiol ac effeithlon, gyda mwy o ddefnydd ar ddulliau mwy cynaliadwy ac iach o deithio¹, a chan leihau gymaint â phosibl ar yr angen i deithio. Gwneir hyn trwy integreiddio:

- *oddi mewn a rhwng gwahanol fathau o drafnidiaeth;*
- *rhwng mesurau trafndiaeth a chynllunio defnydd tir;*
- *rhwng mesurau trafndiaeth a pholisïau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd;*
- *rhwng mesurau trafndiaeth a pholisïau ar gyfer addysg, iechyd, cynhwysiant cymdeithasol a chreu cyfoeth.*

Er enghraifft, gall sicrhau bod datblygiadau'n hygyrch i bawb drwy ddulliau heblaw ceir preifat helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol. Bydd annog beicio a cherdded hefyd yn cyfrannu at y nod o wella iechyd yng Nghymru...”

8.1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i alluogi mwy o bobl i ymgymryd â theithio llesol, ac i fwynhau ei fanteision. Rydym eisïau annog pobl i adael eu ceir ar ôl a defnyddio teithio llesol lle mae'n addas a phriodol gwneud hynny. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu cynlluniau teithio llesol a chyflwyno gwelliannau o un flwyddyn i'r llall o ran llwybrau a chyfleusterau teithio llesol. Mae gan y system gynllunio swyddogaeth bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo teithiau teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a gwell a chyfleusterau cysylltiedig.

8.1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella trafndiaeth ranbarthol a chenedlaethol, a gwella hygyrchedd. Bydd gweithredu Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn helpu i gyflawni gwasanaethau trafndiaeth mwy integredig. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cysylltu â Chynllun Gofodol Cymru ac yn darparu'r cyd-destun ar gyfer Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh).

“...8.1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hierarchaeth drafnidiaeth ar gyfer datblygiadau newydd. Bydd yr hierarchaeth hon yn pennu blaenoriaethau er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, y gellir cyrraedd y datblygiadau hyn yn gyntaf drwy gerdded a thrwy feicio, wedyn ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yn olaf mewn cerbydau modur preifat. Wrth lunio Cynlluniau Datblygu Lleol dylid ystyried yn ofalus y modd y dyrennir safleoedd newydd sy'n debygol o ysgogi llawer o symud, er mwyn sicrhau bod darpariaethau mynediad sy'n hybu cerdded a beicio, yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus, yn rhan o gynigion o'r cychwyn cyntaf. Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd Datganiadau Dylunio a Mynediad yn ystyried y modd y gellir cyrraedd a gadael datblygiadau trwy ddulliau heblaw cerbydau modur preifat.”

2.0 DEDDFWRIAETH A BILIAU CYFREDOL

2.1 RHESTR O DDEDDFWRIAETH A BILIAU

Rhestr	
1	Deddf Priffyrdd (1980)
2	Deddf Trafnidiaeth (1985)
3	Deddf Llywodraeth Cymru (1998)
4	Deddf Trafnidiaeth 2000
5	Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006
6	Deddf Trafnidiaeth Leol 2008
7	Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (2008)
8	Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) (2011)
9	Bil Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Cymru) (2012)
10	Deddf Teithio Lesol (Cymru) 2013

2.2 DEDDF PRIFFYRDD (1980)

- 2.2.1 Mae Deddf Priffyrdd 1980 yn Ddeddf sy'n ymdrin â rheoli a gweithredu'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru a Lloegr.
- 2.2.2 Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu yn 14 rhan gyda 345 o adrannau, ac mae hefyd yn cynnwys 25 o atodlenni.

2.3 DEDDFAU TRAFNIDIAETH (1985)

- 2.3.1 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd dan adran 63 Deddf Trafnidiaeth 1985 i sicrhau darpariaeth gwasanaethau teithio i'r cyhoedd, fel y mae'r awdurdod yn ystyried sy'n briodol er mwyn diwallu galw nad yw'n cael ei ddiwallu trwy ddulliau eraill.

2.4 DEDDF LLYWODRAETH CYMRU (1998)

- 2.4.1 Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd dan Adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru (1998) i hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth weithredu ei swyddogaethau, hynny yw, ym mhopeth a wna, yn cynnwys darparu system drafnidiaeth gynaliadwy.

2.5 DEDDF TRAFNIDIAETH (2000)

- 2.5.1 Rhoddodd Deddf Trafnidiaeth 2000 amrywiaeth eang o bwerau ychwanegol i awdurdodau lleol, gan gynnwys y pŵer i gyflwyno cynlluniau tocynnau ar y cyd.

2.6 DEDDF TRAFNIDIAETH (CYMRU) 2006

- 2.6.1 Rhoddodd Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 y gallu i ariannu gwasanaethau cludiant teithwyr cyhoeddus yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

2.7 DEDDF TRAFNIDIAETH LEOL 2008

2.7.1 Mae'r pŵer i sefydlu cynlluniau partneriaeth ansawdd a chontractau ansawdd yn cael ei chynnwys yn Neddf Trafnidiaeth Leol 2008.

2.8 MESUR TEITHIO GAN DDYSGWYR (CYMRU) (2008)

2.8.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (2008) yn gosod y polisi cludiant i'r ysgol i Gymru.

2.8.2 Mae'n cynnwys cyflwyno gwelliannau i ddysgwyr trwy gynyddu'r hawl i gludiant ar gyfer plant ifanc.

2.9 MESUR DIOGELWCH AR GLUDIANT I DDYSGWYR (CYMRU) (2011)

2.9.1 Mae'r Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) (2011) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno safonau diogelwch penodol i gludiant i'r ysgol bwrpasol.

2.10 BIL PRIFFYRDD A THRAFNIDIAETH (CYMRU) (2012)

2.10.1 Mae Bil Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Cymru) yn ddeddfwriaeth sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu a chynnal llwybrau cerdded a beicio yn eu hardaloedd.

2.10.2 Bwriad y Mesur yw gwneud cerdded a beicio yn ddewis mwy ymarferol a phleserus i bobl yng Nghymru. Bydd manteision o hyn yn cynnwys hyrwyddo teithio cynaliadwy, a'r lleihad canlyniadol mewn allyriadau carbon a gwelliannau mewn ansawdd aer; manteision iechyd cenedl fwy gweithredol a manteision economaidd o hamdden, twristiaeth, ac i'r economi wledig ehangach.

2.11 DEDDF TEITHIO LESOL (CYMRU) 2013

2.11.1 Daeth y Ddeddf hon yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Tachwedd 2013.

2.11.2 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus, a pharatoi mapiau sy'n adnabod llwybrau presennol a ddefnyddir a llwybrau posib y gellir eu defnyddio yn y dyfodol.

2.11.3 Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ffyrdd newydd (gan gynnwys cynlluniau gwella ffyrdd) ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ar adeg eu dylunio.

2.11.4 Bwriad y Ddeddf yw galluogi mwy o bobl i gerdded a beicio a theithio'n gyffredinol heb ddefnyddio modur o unrhyw fath.

2.11.5 Mae gwneud cerdded a beicio yn fwy diogel ac ymarferol yn annog ffordd o fwy mwy iach, yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella ein hamgylchedd.

3.0 CYD-DESTUN POLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL

3.1 CYNLLUN GOFODOL CYMRU

3.1.1 TEITHIO A NEWID YN YR HINSAWDD

O ran ei dyheadau ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth gynaliadwy dywed Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008, t.32):

"13.3 Yng nghyd-destun ymateb i ac yn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, mae Cynllun Gofodol Cymru yn cefnogi datblygu ymatebion targedu'n ofodol. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau'r angen i deithio drwy gyd-leoli swyddi, tai a gwasanaethau, er enghraifft, a newid ymddygiad o blaid dulliau 'gwyrdd' o deithio, megis rhannu ceir, trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. "

3.1.2 HERIAU

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008, t.32) yn nodi cyfres o heriau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau rhwydwaith trafndiaeth cwbl gynaliadwy:

- Gweithio o fewn fframweithiau cynllunio trafndiaeth genedlaethol a rhanbarthol i wella ansawdd a chynaliadwyedd cysylltiadau rhwng aneddiadau allweddol, o fewn a rhwng yr Ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru.
- Integreiddio atebion cynaliadwy gyda chynllunio datblygu cymunedol ac i wella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, gan gydnabod rôl y trydydd sector mewn mannau sy'n anodd eu cyrraedd.
- Wrth barhau i fuddsoddi yn yr isadeiledd a gwasanaethau trafndiaeth, sicrhau bod trafndiaeth yng Nghymru yn cyfrannu at liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy gyflawni gostyngiad yng nghyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr.

3.1.3 RHANBARTHAU

Mae Ynys Môn a'r rhan fwyaf o Wynedd wedi'u cynnwys yn rhanbarth Cynllun Gofodol Gogledd-orllewin Cymru (Eryri a Môn), tra bod y rhan ddeheuol sy'n weddill o Wynedd wedi'i chynnwys yn rhanbarth Canol Cymru.

3.1.4 GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU

- a) Mae'r prif goridor ar gyfer cysylltedd allanol i mewn ac allan o'r rhanbarth wedi'i leoli ar hyd arfordir gogledd Cymru a thrwy ganol Ynys Môn, at borth rhyngwladol y rhanbarth yng Nghaergybi.
- b) Mae'r ardal yn elwa o'r cysylltiadau ffyrdd da a geir gyda ffordd gyflym yr A55 a phrif reilffordd Arfordir Gogledd Cymru (mae'r ddau yn perthyn i'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Draws-ewropeaidd).
- c) Gellid gwireddu cyfleoedd pellach am dwf yn y sector trafndiaeth awyr trwy ehangu'r gwasanaeth hedfan masnachol ym Maes Awyr Môn i ranbarthau eraill yn y DU ac Iwerddon yn hytrach na rhwng gogledd a de Cymru'n unig, gan gynyddu'r cysylltiadau economaidd gydag Iwerddon.

3.1.5 CANOL CYMRU

- a) Mae camau gweithredu allweddol a nodir yn y Cynllun Gofodol yn cynnwys adeiladu ar y canolfannau allweddol pwysig yn yr ardal, a gwella

cysylltiadau a lledaenu buddion a thwf i'r gefnwlad a'r cymunedau gwledig ehangach.

3.2 POLISI CYNLLUNIO CYMRU

3.2.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 8 (2016, 123-124) yn nodi:

“8.1.5 Gall cynllunio defnydd tir fod o gymorth i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer trafndiaeth integredig drwy:

- leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn ceir preifat, drwy leoli datblygiadau mewn mannau sy'n hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, drwy gerdded neu drwy feicio;
- lleoli datblygiadau ger mannau a ddefnyddir at ddibenion cysylltiedig eraill i annog teithiau amlbwrpas ac i leihau hyd siwrneiau;
- gwella hygyrchedd trwy gerdded, trwy feicio ac ar drafnidiaeth gyhoeddus;
- sicrhau bod trafndiaeth yn hygyrch i bawb, gan ystyried anghenion pobl anabl a phobl eraill sy'n llai abl i symud;
- hybu cerdded a beicio;
- rhoi cefnogaeth i ddarparu trafndiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel;
- cefnogi mesurau rheoli traffig;
- hybu dewisiadau cynaliadwy ar gyfer cludo nwyddau ac ar gyfer masnach;
- cefnogi dewisiadau cynaliadwy ar gyfer teithio mewn ardaloedd gwledig;
- cefnogi gwelliannau angenrheidiol yn y seilwaith; a
- sicrhau, cyhyd ag y bo modd, nad yw'r seilwaith trafndiaeth yn golygu cymryd tir, yn cyfrannu at flerdwf trefol nac yn ymrannu cymdogaethau.”

3.3 NODYN CYNGOR TECHNEGOL (NCT) 7: TRAFNDIAETH (2007).

3.3.1 Dyma'r meysydd lle ceir y gwahaniaeth mwyaf rhwng y NCT newydd a'i ragflaenydd:

- a) Mae mwy o bwyslais ar yr angen am system drafnidiaeth gynaliadwy.
- b) Mae angen cyswllt clir rhwng cynlluniau datblygu a'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol berthnasol.
- c) Dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio cynyddu hygyrchedd cymharol hyd yr eithaf yn hytrach na symudedd.
- d) Dylai defnyddiau sy'n creu nifer fawr o deithiau gael eu lleoli mewn dinas, tref a chanolfannau ardal, neu'n agos atynt.
- e) Mewn ardaloedd gwledig dylai awdurdodau lleol ystyried adnabod canolfannau gwasanaeth lleol allweddol fel y lleoliadau a ffafrir ar gyfer y mwyafrif o ddatblygiadau newydd.
- f) Dylid cael ymagwedd bositif at arallgyfeirio ar ffermydd.
- g) Dylid defnyddio safonau uchafswm ar gyfer parcio ceir ar lefelau rhanbarthol a lleol.
- h) Mae angen Asesiad Trafnidiaeth ar gyfer datblygiadau sy'n debygol o greu nifer fawr o deithiau.

3.3.2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007, p.2-3) yn amlygu pwysigrwydd y system gynllunio a'r seilwaith trafndiaeth i sicrhau datblygiadau cynaliadwy:

“2.3 Mae gan y broses o integreiddio cynllunio defnydd tir a datblygu seilwaith trafndiaeth rôl allweddol i’w chwarae wrth fynd i’r afael ag agweddau amgylcheddol datblygu cynaliadwy, yn arbennig newid hinsawdd a’r canlyniadau a nodir yn Strategaeth Amgylchedd Llywodraeth y Cynulliad. Gall integreiddio helpu Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni’ canlyniadau amgylcheddol hyn, ynghyd â’i hamcanion polisi datblygu cynaliadwy ehangach trwy:

- *hyrwyddo patrymau anheddu sy’n effeithlon o ran adnoddau a theithio;*
- *sicrhau y lleolir datblygiadau newydd lle y mae mynediad da, neu lle y bydd mynediad da, ar drafndiaeth gyhoeddus, ar droed ac ar feic gan leihau hyd yr eithaf ar yr angen i deithio a meithrin cynhwysiant cymdeithasol;*
- *rheoli darpariaeth parcio;*
- *sicrhau bod datblygiadau newydd a newidiadau mawr i ddatblygiadau sy’n bodoli eisoes yn cynnwys darpariaeth briodol ar gyfer cerddwyr (gan gynnwys y rhai â gofynion mynediad a symudedd arbennig), seiclo, trafndiaeth gyhoeddus, a rheoli traffig a pharcio/gwasanaethu;*
- *annog datblygiadau i gael eu lleoli gerllaw defnyddiau cysylltiedig eraill er mwyn annog teithiau amlbwrpas;*
- *hyrwyddo seiclo a cherdded;*
- *cefnogi’r bwriad o ddarparu trafndiaeth gyhoeddus gynhwysol o safon uchel;*
- *cefnogi’r bwriad o ddarparu rhwydwaith cludo nwyddau dibynadwy ac effeithlon;*
- *hyrwyddo’r syniad o leoli warysau a datblygiadau gweithgynhyrchu i hwyluso’r defnydd o drafndiaeth rheilffordd a thrafndiaeth forol at ddibenion cludo nwyddau; annog gwaith cynllunio strydoedd o safon uchel sy’n darparu parth cyhoeddus diogel ac ymdeimlad pendant o le;*
- *sicrhau bod seilwaith trafndiaeth neu welliannau i’r gwasanaethau sydd eu hangen i wasanaethu datblygiadau newydd yn caniatáu i rwydweithiau trafndiaeth sy’n bodoli eisoes barhau i gyflawni eu swyddogaethau dynodedig.”*

3.3.3 Mae'r TAN yn nodi nifer o faterion trafndiaeth sydd yn ystyriaethau allweddol â chynllunio defnydd tir. Y rhain yw: lleoliad y datblygiad; hygyrchedd; defnydd sy’n creu nifer fawr o deithiau; ac ardaloedd gwledig.

3.3.4 Lleoli Datblygiadau

“3.1 Gall y system cynllunio defnydd tir effeithio ar batrymau teithio, trwy lywio penderfyniadau ynghylch lleoliad, graddfa, dwysedd a chymysgedd datblygiadau newydd, a rheoli newid defnydd tir. Fel hyn, mae trafndiaeth a defnydd tir yn rhyngweithio a gallant effeithio ar ollyngiadau nwyon tŷ gwydr, iechyd y boblogaeth leol, cynhwysiant cymdeithasol a chostau tagfeydd. Mae newidiadau mewn patrymau teithio a sicrheir trwy newid defnydd tir yn y dyfodol yn debygol o fod yn gynyddrannol, ond yn y tymor canolig i hir gallent leihau’r angen i deithio gryn dipyn a sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o opsiynau trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod eu strategaeth cynllun datblygu yn cyd-fynd â’r nod o leihau’r angen i deithio ac yn darparu mwy o ddewis o ran dulliau teithio heblaw’r car preifat.”

3.3.5 Hygyrchedd

“3.2 Wrth benderfynu ar batrwm datblygu priodol, dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio cynyddu hyd yr eithaf ar hygyrchedd cymharol yn hytrach na sicrhau y gall pawb deithio i bob man (symudedd). Hygyrchedd yw’r gallu

cymharol i fanteisio ar wasanaethau, marchnadoedd neu gyfleusterau. Mae'n bwysig canolbwyntio ar hygyrchedd wrth fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol ac er mwyn sicrhau bod cymaint o ddewis â phosibl o ran gwasanaethau, cyflogaeth a chyfleoedd hamdden, gan gofio yn y mwyafrif o achosion fod trafndiaeth yn fodd i gyflawni diben. Mae hygyrchedd cymharol yn debygol o fod yn rhan o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a gymhwysir at Gynlluniau Datblygu Lleol. Gall fod yn ddefnyddiol fel un o'r nifer fawr o ystyriaethau sy'n berthnasol i'r broses rheoli datblygu i gynorthwyo i ddangos cynaliadwyedd. Pan asesir bod gan gynnig datblygu hygyrchedd cymharol wael gall hyn fod yn sail ddigonol i wrthod rhoi caniatâd cynllunio pan na fydd hyn yn hyrwyddo amcanion cynaliadwyedd a nodir yn y cynllun datblygu."

3.3.6 Defnydd sy'n creu nifer fawr o deithiau

"3.3 Mae lleoliad datblygiadau preswyl newydd yn dylanwadu gryn dipyn ar batrymau teithio am fod y mwyafrif o deithiau yn dechrau neu'n gorffen gartref. Ar ben hynny, fel arfer, tai yw'r defnydd tir helaethaf mewn aneddiadau. O ganlyniad, bydd y berthynas rhwng cartrefi a defnydd tir arall yn dylanwadu ar y galw am deithio o ran y dull teithio, hyd teithiau a'r potensial ar gyfer teithiau amlwrpas. Dylai nodi safleoedd preswyl sydd o fewn cyrraedd swyddi, siopau a gwasanaethau trwy ddulliau teithio heblaw am y car a lle y gall gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus ddarparu ar gyfer rhagor o ddatblygiadau neu le y bwriedir iddynt allu darparu ar gyfer rhagor o ddatblygiadau fod yn un o nodau allweddol cynlluniau datblygu. Dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau cydbwysedd cyffredinol rhwng cyfleoedd tai a chyflogaeth i leihau hyd yr eithaf ar yr angen posibl i gymudo dros bellter hir."

3.3.7 Datblygiadau tai hygyrch

"3.4 Felly dylai polisïau aneddiadau a dyraniadau preswyl mewn cynlluniau datblygu:

- *hyrwyddo datblygiadau tai mewn lleoliadau sydd â mynediad da ar droed neu ar feic i ysgolion cynradd ac uwchradd ac aros manau Trafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy bob dull teithio i gyflogaeth, addysg bellach ac uwch, gwasanaethau, siopau a hamdden, neu le y darperir y cyfryw fynediad fel rhan o'r cynllun neu le y mae'n gynnig cadarn yn y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol;*
- *sicrhau bod cynlluniau tai newydd pwysig yn cynnwys defnydd atodol gan gynnwys siopau lleol, a gwasanaethau a, lle y bo hynny'n briodol, gyflogaeth leol;*
- *cynnwys polisïau a safonau ar ddwysedd, a pharcio i sicrhau dwyseddau preswyl uwch mewn lleoedd â hygyrchedd a chapasiti da o ran trafndiaeth gyhoeddus;*
- *hyrwyddo cynlluniau preswyl sy'n ymgorffori cynigion rheoli traffig megis parthau cartrefi, mesurau tawelu a pharthau 20 m.y.a. a lle y bo hynny'n briodol, gynlluniau sy'n caniatáu i drafndiaeth gyhoeddus deithio'n hawdd;*
a
- *mynnu cynlluniau a dwyseddau sy'n cynyddu hyd yr eithaf ar y cyfleoedd i gerdded a seiclo i gyfleusterau lleol ac arosfannau trafndiaeth gyhoeddus."*

3.3.8 Defnydd arall sy'n cynhyrchu nifer fawr o deithiau

“3.7 Gall lleoliad defnydd sy'n creu nifer fawr o deithiau megis cyflogaeth, addysg, siopau a hamdden ddylanwadu gryn dipyn ar y nifer o deithiau a hyd deithiau, y dull o deithio a'r potensial ar gyfer teithiau amlbwrpas. Dylai cynlluniau datblygu geisio, lle bynnag y bo modd, nodi lleoliadau ar gyfer y cyfryw ddatblygiadau, sy'n cynnig mynediad go iawn a hawdd trwy amrywiaeth o ddulliau teithio ac sydd felly yn:

- dyrannu cynhyrchwyr galw am deithio mawr yng nghanol dinasoedd, trefi ac ardaloedd ac yn agos at gyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus, fel modd o leihau'r ddibyniaeth ar y car a chynyddu cynhwysiant cymdeithasol trwy sicrhau bod datblygiadau yn hygyrch ar drafndiaeth gyhoeddus i'r bobl hynny na allant ddefnyddio car;*
- cynnwys polisïau sy'n cyfarwyddo lleoli cyfleusterau y mae angen rheolaidd amdanynt gerllaw eu defnyddwyr mewn canolfannau lleol a gwledig, gan sicrhau mynediad hawdd i bawb, yn arbennig ar droed ac ar feic; mae'r cyfryw gyfleusterau yn cynnwys ysgolion cynradd, meddygfeydd a siopau cyfleuster lleol;*
- ystyried y potensial ar gyfer newid patrymau teithio anghynladwy sy'n bodoli eisoes, er enghraifft trwy ymagwedd gydgysylltiedig at ddyraniadau cynllun datblygu a gwelliannau trafndiaeth.”*

3.3.9 Ardaloedd gwledig

“3.10 Mae nodweddion ardaloedd gwledig gan gynnwys dwyseddau poblogaeth isel, cyfleoedd gwaith gwasgaredig a gwasanaethau wedi'u canolbwyntio mewn aneddiadau mwy o faint yn cyfyngu ar opsiynau teithio. Mae'r car yn bwysig ar gyfer hygyrchedd mewn ardaloedd gwledig ac mae'n debygol o barhau felly hyd y gellir rhagweld. Fodd bynnag mae grwpiau poblogaeth bwysig megis merched, pobl ifanc, yr henoed a'r bobl hynny ag incymau isel, nad ydynt yn berchen ar gar neu sydd â mynediad cyfyngedig i gar yn wynebu problemau difrifol yn gysylltiedig ag allgau cymdeithasol. Bydd gwella hygyrchedd ar gyfer y grwpiau hyn yn helpu i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lleihau unigrwydd gwledig.

3.11 Dylai datblygiadau mewn lleoliadau gwledig ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, gan gydbwyso'r angen i hyrwyddo'r economi wledig tra'n cynnal a gwella ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardaloedd gwledig. Dylid lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau mewn lleoedd sy'n hygyrch drwy amrywiaeth o ddulliau teithio. Fel rhan o strategaeth aneddiadau'r cynllun datblygu, dylai awdurdodau cynllunio ystyried nodi canolfannau gwasanaethau lleol allweddol. Gall y canolfannau hyn gynnwys tref farchnad, pentref mawr neu grŵp o bentrefi y mae cysylltiad agos rhyngddynt. Dylid sicrhau mai'r cyfryw ganolfannau gwasanaethau yw'r lleoliadau ffafriedig ar gyfer y mwyafrif o ddatblygiadau newydd gan gynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth. Bydd nodi canolfannau gwasanaethau allweddol yn helpu i hyrwyddo defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo a lleihau hyd yr eithaf ar yr angen am deithiau i ganolfannau mwy o faint.”

4.0 DOGFENNAU TRAFNIDIAETH GENEDLAETHOL

4.1 STRATEGAETH DRAFNIDIAETH CYMRU – CYMRU'N UN: CYSYLLTU'R GENEDL (2008)

4.1.1 Nod 'Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl' yw hyrwyddo rhwydweithiau trafndiaeth gynaliadwy sy'n gwarchod yr amgylchedd ac sy'n cryfhau bywyd economaidd a chymdeithasol y wlad.

4.1.2 Mae'r strategaeth hon yn adnabod cyfres o ddeilliannau lefel uchel ac yn amlinellu'r camau ar gyfer eu cyflawni.

4.1.3 Mae'r deilliannau allweddol yn cynnwys gwella mynediad at siopa, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd cyflogaeth, a hefyd lleihau cyfraniad trafndiaeth at allyriadau nwyon tŷ gwydr.

4.2 CYNLLUN TRAFNIDIAETH GENEDLAETHOL DRAFFT (2015)

4.2.1 Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol newydd hwn yn dangos sut y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau'r Rhaglen Lywodraethu.

4.2.2 Mae gan drafndiaeth ran hanfodol yn y gwaith o wella cystadleuydd economaidd Cymru ac mae'n darparu mynediad gwell at swyddi a gwasanaethau. Wrth gynllunio ein buddsoddiad mewn trafndiaeth, mae'n bwysig canolbwyntio ar sut y gall wasanaethu anghenion busnesau, pobl a chymunedau. Ni allwn brofi manteision gorau trafndiaeth oni bai bod gennym wasanaethau cenedlaethol a rhyngwladol o'r radd flaenaf. Mae darparu system drafndiaeth fforddiadwy, effeithiol ac effeithlon hefyd yn allweddol wrth helpu i drechu tlodi.

4.2.3 Nod y Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol yw darparu ymagwedd newydd tuag at gynllunio trafndiaeth a fydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ac yn sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei gyfeirio tuag at sicrhau'r gwerth gorau am arian a'r effaith orau. Mae'r Cynllun yn nodi gwelliannau Cenedlaethol a Rhanbarthol, ac ar yr un pryd, mae Awdurdodau Lleol yn datblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Leol i nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth ar lefel leol i gefnogi canlyniadau Strategaeth Drafndiaeth Cymru ac yn unol ag arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

4.3 DEWISIADAU DOETHACH: CYMRU (2007)

4.3.1 Mae trafndiaeth gynaliadwy wrth galon agenda Llywodraeth Cymru. Mae gan ddulliau cludiant cynaliadwy – megis teithio ar drên, bws, tram, tacsî, ar feic, ar droed neu drwy rannu car – oll rôl i'w chwarae wrth leihau'r effeithiau negyddol sy'n deillio o bobl yn teithio ar eu pen eu hunain mewn car.

4.3.2 Cyfeirir at dechnegau sy'n effeithio ar ymddygiad pobl yng nghyswllt teithio, ac yn eu dylanwadu i ddewis y dulliau teithio eraill hyn (a elwir yn 'newid moddol') yn 'Ddewisiadau Doethach'.

4.3.3 Mae Cynlluniau Teithio Preswyl yn arbennig o berthnasol i gynllunio defnydd tir. Mae'r cynlluniau hyn yn ceisio sicrhau bod hygyrchedd trafndiaeth gynaliadwy yn cael ei gynllunio yn y camau cynnar o ddatblygiadau tai newydd neu ddefnydd cymysg.

4.4 CYNLLUN GWEITHREDU CERDDED A BEICIO I GYMRU (2009-2013)

4.4.1 Mae'r Cynllun yn cynnwys ystod o gamau gweithredu a'u bwriad yw cyflawni'r amcanion hyn sy'n cael eu rhannu rhwng y pedair thema a ganlyn:

- a) Newid Ymddygiad: Cerdded a beicio i wneud mwy o gyfraniad tuag at dargedau newid hinsawdd a chodi lefelau gweithgarwch corfforol.
- b) Teithio Cynaliadwy gaiff ei annog trwy well Isadeiledd Cerdded a Beicio: Creu isadeiledd diogel, deniadol a hwylus i bobl deithio ar droed neu ar feic.
- c) Amcanion y Polisi: Sicrhau bod cerdded a beicio yn cael eu cynnwys mewn cyllid, cyfarwyddyd a pholisïau trawsbynciol.
- d) Gwerthuso: Galluogi Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni i gadw golwg ar y cynnydd a wneir wrth gyflawni camau gweithredu'r Cynllun hwn a'r deilliannau disgwylidig.

4.5 ASESIAD CYNLLUNIO RHEILFFYRDD CYMRU (2007)

4.5.1 Adroddiad yw hwn sy'n astudiaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafndiaeth mewn ymateb i'r galw i edrych ar y twf posib yn y defnydd o reilffyrdd rhwng 2006 a 2026, a beth ellir ei wneud i gwrdd â'r twf hwn.

4.5.2 Mae'r ddogfen yn cyd-fynd â dogfen Strategaeth Drafndiaeth Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.6 MONITRO GWASANAETH AWYR RHWNG MAES AWYR RHYNGWLDADOL CAERDYDD / YNYS MÔN – ADRODDIAD TERFYNOL (2008)

4.6.1 Dechreuodd y gwasanaeth awyr rhwng Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a safle sifil newydd gwerth £1.5 miliwn yn RAF Y Fali (Maes Awyr Môn) ar 8 Mai 2007.

4.6.2 Mae'r gwasanaeth awyr wedi gwella cydlynoldeb Cymru, gan alluogi pobl i gymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol a gwella mynediad i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon.

4.6.3 Buasai ychwanegu trydydd gwasanaeth yng nghanol y dydd yn cynyddu'r gyfran o'r farchnad a gymerir gan y gwasanaeth awyr.

4.7 DOGFEN YMGYNGHORI LLYWODRAETH CYMRU – CYNLLUN CYFLAWNI DRAFFT AR GYFER DIOGELWCH AR Y FFYRDD (2012)

4.7.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â dull strategol Llywodraeth Cymru o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd hyd at 2020, a'r camau y credant sydd orau i arwain at leihad yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu ar y ffyrdd.

4.7.2 Y deilliant a ddymunir yw bod pawb yn ddiogel ar y ffyrdd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai pob gweithgaredd diogelwch ffyrdd ganolbwyntio ar gyflawni'r deilliant hwn.

- 4.7.3 Dyma weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd:
- “Parhau i leihau nifer y bobl a gaiff eu lladd a’u hanafu’n ddifrifol ar ffyrdd Cymru, gan anelu yn y pen draw at sicrhau nad oes unrhyw farwolaethau yn y dyfodol.”
- 4.7.4 Mae'n bosib y gellid ystyried 'dim marwolaethau' yn darged afrealistig, ond dylai fod yn ddyhead gan y llywodraeth i anelu at ddim marwolaethau.
- 4.8 CYMRU'N UN: CYSYLLTU'R GENEDL – STRATEGAETH CLUDO NWWYDDAU CYMRU (2008)
- 4.8.1 Mae'r ddogfen yn amlinellu nodau a pholisïau lefel uchel ar gyfer cludiant nwyddau, ac yn adnabod cyfres o 'gamau' er mwyn eu cyflawni.
- 4.8.2 Rhoddir blaenoriaeth uchel ar rôl cludo nwyddau wrth sicrhau amgylchedd cynaliadwy.
- 4.8.3 Un o flaenoriaethau allweddol y strategaeth yw gwella mynediad rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol.
- 4.8.4 Camau Gweithredu yn cynnwys:
- Gwella mynediad rhwng y Gogledd a'r De;
 - Gwella cysylltiadau rhwng aneddiadau;
 - Gwella cysylltiadau i mewn i aneddiadau allweddol;
 - Sicrhau bod gan bawb fynediad i'r system drafnidiaeth.
- 4.8.5 Mae ethos y flaenoriaeth hon yn gysylltiedig iawn â nodau ar gyfer cludo nwyddau, ond ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu sy'n benodol yn targedu nwyddau a gludir; mae gan rai cysylltiadau penodol:
- Gwella cysylltiadau o'r Gogledd i'r De drwy gludiant cyhoeddus a ffyrdd (lle y rhoddir y flaenoriaeth i amseroedd teithio a dibynadwyedd)
 - Gwella dibynadwyedd y system ffyrdd yn enwedig rhwng aneddiadau allweddol
- 4.9 LLAWLYFR STRYDOEDD (2007)
- 4.9.1 Mae angen trawsnewid ansawdd strydoedd preswyl, ac mae gofyn mynd ati mewn ffordd wahanol i'w darparu.
- 4.9.2 Mae'r llawlyfr wedi'i anelu at unrhyw sefydliad neu ddisgyblaeth sydd â diddordeb mewn strydoedd preswyl, yn amrywio o swyddogion mynediad i'r gwasanaethau brys.
- 4.9.3 Mae sgôp y llawlyfr yn cynnwys strydoedd preswyl cyfyngedig a strydoedd eraill lle mae'r traffig yn ysgafn, ond gellir cymhwyso ei egwyddorion i fathau eraill o ffyrdd pan fo hynny'n briodol.
- 4.19.4 Ni ddylid dylunio strydoedd i hwyluso symudiad cerbydau modur yn unig – un brif ystyriaeth yw eu bod yn cwrdd ag anghenion cerddwyr a beicwyr.

- 4.9.5 Yr argymhelliad allweddol yn y llawlyfr yw y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i swyddogaeth 'lle' strydoedd.
- 4.10 LLAWLYFR STRYDOEDD 2 – CYMHWYSO'R EGWYDDORION YN EHANGACH (2010)
- 4.10.1 Mae strydoedd a ffyrdd yn ffurfio tua thri chwarter o'r holl ofod cyhoeddus - mae eu dyluniad, eu hymddangosiad a'u swyddogaeth yn cael effaith enfawr ar fywydau pobl.
- 4.10.2 Nod y ddogfen yw ehangu manteision dylunio da i strydoedd a ffyrdd sydd y tu allan i ardaloedd preswyl a darparu amgylchedd gwell.
- 4.10.3 Trwy ailfeddwl am y ffordd y caiff strydoedd mawr a ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd eu dylunio, gellir newid gwead mannau cyhoeddus a'r modd y mae pobl yn ymddwyn.
- 4.10.4 Mae'n golygu dylunio trwy ddulliau newydd a thorri ymaith o safonau anhyblyg a datrysiadau peirianyddol traddodiadol.
- 4.10.5 Nid yw'r llawlyfr newydd hwn yn disodli'r Llawlyfr Strydoedd; yn hytrach mae'n egluro sut y gellir cymhwyso'r egwyddorion yn y ddogfen gyntaf yn ehangach.

5.0 DOGFENNAU TRAFNIDIAETH RANBARTHOL

5.1 CYNLLUN AR Y CYD TRAFNIDIAETH LEOL GOGLEDD CYMRU (2015)

- 5.1.1 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Leol (CTLI) wedi cael ei gynhyrchu ar y cyd gan y chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r cynllun yn cynnwys dim ond y rhannau gogleddol o Wynedd efo Meirionnydd yn cael ei gynnwys yn y CTLI ar gyfer Canolbarth Cymru. Cyfanswm poblogaeth ardal y Cynllun Trafnidiaeth Leol Gogledd Cymru yn 2011 oedd 654,631.
- 5.1.2 Mae'r cynllun yn cynnwys rhaglen fanwl o 2015-2020 a fframwaith ar gyfer cynlluniau hyd at 2030. Mae'n nodi ystod o ymyriadau a chynlluniau ar gyfer pob dull o deithio, rhai yn berthnasol ar draws yr holl awdurdodau a rhai'n lleol. Mae'r cynlluniau yn ymateb i'r materion trafndiaeth yn y rhanbarth ac yn ategu'r rhai sy'n cael eu datblygu ar lefel genedlaethol ac ar draws ffiniau.
- 5.1.3 Y ddogfen hon yw'r Cynllun Trafnidiaeth Leol terfynol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 31^{ain} Ionawr 2015, yn cynnwys rhaglen fanwl o 2015-2020 a fframwaith ar gyfer cynlluniau hyd at 2030. Mae'r CTLI yn ddogfen statudol sy'n gorwedd yn gyfochrog â Chynlluniau Datblygu Lleol a pholisïau a chynlluniau bob un o'r awdurdodau lleol eraill.
- 5.1.4 Y weledigaeth ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Leol fel a ganlyn:

Gweledigaeth ar gyfer Trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru

Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn anelu i ddileu rhwystrau i dwf economaidd, ffyniant a lles drwy ddarparu rhwydweithiau trafndiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac effeithiol.

- 5.1.5 Pum mater trafndiaeth allweddol wedi'u nodi yn y cynllun:

Materion Trafnidiaeth Allweddol ar gyfer Gogledd Cymru

- Mae gallu'r coridorau cefnffyrdd a rheilffyrdd strategol i ddarparu cysylltedd da, ar gyfer pobl a nwyddau, gyda Gogledd Cymru, i'r porthladdoedd ac i weddill y DU i gefnogi'r economi a swyddi, gan gynnwys twristiaeth;
- Mae diffyg gwydnwch y rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd i ddigwyddiadau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio, gan gynnwys tywydd eithafol;
- Yr angen am fynediad da i a rhwng y tri Pharth Menter yng Ngogledd Cymru;
- Mae diffyg dewisiadau amgen hyfyw a fforddiadwy i'r car ar gyfer mynediad at safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill; ac
- Yr angen am gysylltiadau ffordd dda i / oddi wrth y rhwydwaith cefnffyrdd i mewn i'r ardaloedd gwledig er mwyn helpu i gadw'r hyfywedd busnesau lleol a chefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant

Cymreig.

5.1.6 Mae cyfres o ganlyniadau wedi eu nodi yn y cynllun sy'n rhestru yn yr hyn y mae'r grŵp eisiau ei gyflawni dros y pum mlynedd nesaf:

Canlyniadau Cynllun Cludiant Lleol

1. **Cysylltiadau i Cyrchfannau Allweddol a Marchnadoedd:** Cymorth ar gyfer Twf Economaidd drwy welliant yn effeithlonrwydd, dibynadwyedd, gwydnwch, a chysylltedd symudiad, gan gynnwys cludo nwyddau, o fewn a rhwng gogledd Cymru a rhanbarthau a gwledydd eraill (gan ganolbwyntio'n benodol ar hygyrchedd Parthau Menter a gwelliant yn y bywiogrwydd a hyfywedd trefi a chanolfannau allweddol eraill);
2. **Mynediad i Gyflogaeth:** Darparu mynediad cynhwysol a fforddiadwy i gyflogaeth a hyfforddiant (gan ganolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig);
3. **Mynediad i Wasanaethau:** Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles drwy fynediad cynhwysol a fforddiadwy i addysg, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau allweddol eraill a chyfleusterau (gan ganolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig);
4. **Cynyddu Lefelau Cerdded a Beicio:** ar gyfer teithio a hamdden angenrheidiol, gan drigolion ac ymwelwyr;
5. **Gwell Diogelwch:** y diogelwch gwirioneddol a chanfydded teithio trwy bob dull;
Cryfhau Pontydd (Mannau cul)	Gwynedd	Aseswyd nifer sylweddol o bontydd a chanfuwyd eu bod â chapasiti is-safonol i gario cerbydau ac maent yn destun mesurau monitro i leihau aflonyddu ar y cymunedau lleol. Nodwyd 14 safle ble mae cyfyngiadau pwysau neu gapasiti is-safonol presennol yn atal twf economaidd. Y cynllun arfaethedig yw ail-wynebu, adnewyddu neu gryfhau'r pontydd hyn mewn rhaglen raddol yn ôl blaenoriaeth. Mater o gryn bwysigrwydd wrth benderfynu ar y flaenoriaeth yw a fydd strwythur yn cludo ffordd argyfwng a ddefnyddir petai Gefnffordd neu Briffordd yn cau.
Cylchfan yr A496 yn Llandecwyn	Gwynedd	Bydd y cynllun yn gwella mynediad i Barth Menter Eryri (ardal Llanbedr) ar yr A496 yn Llandecwyn ac o'r A487(T) dros Bont Briwet o Benrhyndeudraeth drwy weithredu gwelliannau i gyffordd y gylchfan yn Llandecwyn. Bydd y cynllun yn mynd i'r afael â phroblemau damweiniau a gwella llif traffig a chapasiti. Mae'r A496 y cyswllt strategol rhwng Parth Menter Eryri a'r rhwydwaith cefnffyrdd.
A496 Maentwrog – Blaenau Ffestiniog	Gwynedd	Mae'r cynllun hwn ar gyfer gwella safon a diogelwch cludiant ar hyd darn 7.7Km (4.8 milltir) o Ffordd Sirol yr A496 rhwng y gyffordd â'r A487 ger Maentwrog, i'r gogledd tuag at y gyffordd â'r A487 yn y Sgwâr, Blaenau Ffestiniog. Yr A496 yw'r cyswllt strategol rhwng Parth Menter Eryri a'r rhwydwaith cefnffyrdd.

Ymyraethau Lefel Uwch Gwella'r Cysylltiadau Strategol		
Enw cynllun	Awdurdod Lleol	Disgrifiad
Cynllun Adnewyddu Pont Briwet	Gwynedd	Mae cynllun Pont Briwet bron a'i gwblhau yn dilyn cyllido sylweddol gan y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru ynghyd â Network Rail, TraCC a Chyngor Gwynedd. Mae'r cynllun yn golygu adeiladu pont ffordd a rheilffordd newydd ar draws Afon Dwryd ger Penrhyndeudraeth, llwybr - beicio/llwybr troed newydd, lledu ffyrdd mynediad a gwelliannau i orsaf Llandecwyn. Bydd y bont newydd well

		yn gyswllt economaidd pwysig i gymunedau gwledig Ardudwy ac yn diogelu dyfodol Rheilffordd Arfordir y Cambrian. Mae angen cyllid er mwyn cwblhau'r cynllun yn dilyn problemau a arweiniodd at oediad ac amseriad cau'r rhaglen EDRF.
--	--	--

Ymyrraeth Lefel Uwch – Gwella Mynediad at Gyflogaeth a Gwasanaethau

Enw cynllun	Awdurdod Lleol	Disgrifiad
Mynediad Maes Awyr Llanbedr (Parth Menter Eryri)	Gwynedd	Darparu ffordd fynediad amlddefnyddiwr newydd er mwyn cysylltu safle Maes Awyr Llanbedr â'r A496. Bydd hyn yn gwella mynediad i Barth Menter Eryri a'r cysylltiadau i eraill yn y triangl o Barthau Menter (Môn a Dyffryn Dyfrdwy).

Ymyrraeth Lefel Uwch – Annog Cerdded a Beicio

Enw cynllun	Awdurdod Lleol	Disgrifiad
Teithio Llesol i leoliadau 'dynodedig'	Gwynedd	Diben y cynlluniau arfaethedig yw bodloni gofynion y Ddeddf Teithio Llesol newydd drwy gyllido gwelliannau i gysylltiadau cerdded a beicio yn y pedwar lleoliad 'dynodedig' yn ne Gwynedd, sef, Blaenau Ffestiniog, Tywyn, Dolgellau ac Abermaw.
Llwybr Amlddefnyddiwr Lôn Tryweryn	Gwynedd	Byddai'r cynllun hwn yn creu llwybr amlddefnyddiwr rhwng Bala drwy Frongoch i'r Ganolfan Rafftio Dŵr Gwyn Cenedlaethol, Tryweryn. Mae'r llwybr arfaethedig yn dilyn rhan fwyaf o lwybr hen reilffordd cangen y Great Western o'r Bala i Flaenau Ffestiniog ac mae'n 6.8km o hyd.

Ymyrraeth Lefel Uwch – Annog Cerdded a Beicio

Enw cynllun	Awdurdod Lleol	Disgrifiad
Llwybr Amlddefnyddiwr Tywyn i Aberdyfi	Gwynedd	Adeiladu llwybr beicio ochr yn ochr â'r A493 sy'n cysylltu cymunedau arfordirol Tywyn ac Aberdyfi. Mae swyddogaeth dwristiaeth a chymunedol i'r llwybr hwn a gallai ffurfio rhan o Lwybr Arfordirol Gogledd Cymru.

Ymyrraeth Lefel Uwch – Gwella Diogelwch

Enw cynllun	Awdurdod Lleol	Disgrifiad
Diogelwch	Gwynedd	Mae Swyddogion Diogelwch Ffyrdd

Beiciau Modur		Cyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Brys a 'Bikesafe' Heddlu Gogledd Cymru er mwyn gwella diogelwch beicwyr modur sy'n fater sylweddol yn y Sir fawr wledig hon. Mae'r cynllun yn dadansoddi adroddiadau gwrthdrawiadau ac yn gweithredu gwelliannau er mwyn gwella diogelwch. Mae'r gwelliannau'n cynnwys arwyddion, marciau ffordd a mân waith ffisegol.
---------------	--	--

Noder: Bod rhai o'r bwriadau yma yn disgyn o fewn Ardal y Parc Cenedlaethol

5.5 TRACC CONSORTIWM - CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL (2009)

5.5.1 Er bod yr awdurdodau lleol yn y Canolbarth wedi penderfynu paratoi Cynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd ar gyfer eu hardal, mae paratoi'r cynllun wedi cael ei oruchwylio gan y Bwrdd TraCC. TraCC oedd Consortia Trafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru.

5.5.2 Nid TraCC yw'r corff sy'n gyfrifol am dderbyn a rheoli cyllid trafndiaeth rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, maent yn parhau fel cydbwyllgor a gyfansoddiwyd yn llawn o'r awdurdodau lleol efo cyfrifoldeb am drafndiaeth.

5.5.3 Mae'r consortiwm yn cynnwys tri awdurdod lleol Canolbarth Cymru:

- a) Cyngor Sir Ceredigion
- b) Cyngor Gwynedd (Ardal Meirionnydd)
- c) Cyngor Sir Powys

5.5.4 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol TraCC (2009) yn nodi'n fanwl y materion sy'n wynebu'r rhanbarth ar y pryd cynhyrchwyd y cynllun ac yn ddogfen bolisi allweddol wrth ffurfio'r broses o baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd ar gyfer Canolbarth Cymru.

5.5.5 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol TraCC yn cynnwys y dogfennau canlynol:

1). STRATEGAETH TYMOR HIR

- a) Lleihau effaith symudiad ar yr amgylchedd byd-eang a lleol a sicrhau'r lefelau uchaf o warchodaeth i Safleoedd Ewropeaidd.
- b) Gwella diogelwch eiddo a diogelwch personol holl ddefnyddwyr trafndiaeth.
- c) Gwella hygyrchedd teithio i wasanaethau, swyddi a chyfleusterau i bob sector o gymdeithas.
- d) Gwella ansawdd ac integreiddiad y system drafndiaeth gyhoeddus gan gynnwys swyddogaeth trafndiaeth gymunedol.
- d) Darparu, hyrwyddo a gwella dulliau cynaliadwy o deithio.
- f) Cynnal a gwella'r seilwaith trafndiaeth bresennol (ffyrdd a rheilffyrdd).

- g) Sicrhau bod materion teithio a hygyrchedd yn cael eu hintegreiddio'n briodol mewn penderfyniadau defnydd tir.
- h) Gwella effeithlonrwydd, dibynadwyedd a chysylltedd symudiad gan bob dull o drafnidiaeth o fewn a rhwng Canolbarth Cymru a rhanbarthau eraill o Gymru a Lloegr.
- i) Darparu rhwydwaith teithio a thrafnidiaeth cydgysylltiedig ac integredig drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

2). STRATEGAETH RANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU

- a) Mae'r strategaeth ar gyfer yr holl briffyrdd yn y rhanbarth, boed yn rhai a reolir gan yr awdurdodau lleol neu'r Asiantaethau Cefnffyrdd, er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau'n seiliedig ar anghenion a buddion posib yn hytrach nac ar gyfrifoldebau.

3). STRATEGAETH CLUDIANT TEITHWYR

- a) Diben y Strategaeth Cludiant Teithwyr yw darparu fframwaith i ddatblygu prosiectau cludiant i deithwyr sy'n unol ag amcanion a blaenoriaethau'r CTRh.
- b) Bydd y Strategaeth Cludiant Teithwyr hefyd yn cynorthwyo i ddatblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau unigol, ac fel y bo'n briodol, y broses 'WelTAG'.

4). STRATEGAETH RHEOLI LLWYBRAU

- a) Bwriad y Strategaeth Rheoli Llwybrau yw ffurfio'r sail ar gyfer rheoli'r gwaith o gynnal a chadw a gwella llwybr yn unol â'r polisi cyfredol a mynd i'r afael â materion megis tagfeydd, diogelwch a pherfformiad llwybrau.

5). CYNLLUN TRAFNIDIAETH RANBARTHOL - MONITRO

- a) Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn cynnwys adran ar fonitro.

6). STRATEGAETH CERDDED A BEICIO

- a) Wrth gyflawni'r nodau ac amcanion y strategaeth, mae'r strategaeth yn cynnwys cyflwyno cyfuniad o'r elfennau canlynol:
 - Gwella seilwaith cerdded a seiclo;
 - Darparu cyfleusterau cysylltiedig ar gyfer cerdded a seiclo;
 - Cefnogi hyfforddiant;
 - Hyrwyddo dewis cynaliadwy.
- b) Cydnabyddir y bydd y gwaith o gyflawni elfennau o'r strategaeth yn ddibynnol a'r cyfuniad o fuddsoddiad cyfalaf a chymorth refeniw, gyda darpariaeth o isadeiledd a chyfleusterau cysylltiedig sydd angen cyllid cyfalaf a hyfforddiant ac mae'r mwyafrif o fentrau dewisiadau doethach angen cyllid refeniw.

6.0 MATERION TRAFNIDIAETH

6.1 TEITHIO AWYR

a) GWYNEDD (RHANBARTH TAITH)

- i) Mae'n bosib y gallai'r maes awyr yng Nghaernarfon hefyd ddarparu cyfleusterau ar gyfer gwasanaethau hedfan sifil.
- ii) Bydd y ganolfan hefyd yn gartref i'r ddau hofrennydd Chwilio ac achub sydd i fod i ddod yn gwbl weithredol yn 2015.

b) YNYS MÔN

- i) Maes Awyr Môn wedi ei leoli i'r de-orllewin yr Ynys yn RAF Fali, llai na dwy filltir o'r wibffordd A55.
- ii) Hedfan i Gaerdydd yn gweithredu ddwywaith y dydd ar ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus a dyddiadau cau i lawr RAF y Nadolig / Flwyddyn Newydd).
- iii) Hedfan yn cael eu trefnu i gymryd tua 1 awr sy'n rhoi dewis arall i'r teithiau hir ar ffyrdd a rheilffyrdd rhwng y rhanbarth ac mae'r brifddinas teithwyr busnes a hamdden.
- iv) Mae'r gwasanaeth yn cael ei weithredu gan Linksair, o dan gontract i Lywodraeth Cymru.

Teithio Awyr – Materion Allweddol

- Cynyddu'r amrediad o gyrchfannau ar gyfer gwasanaethau hedfan o Faes Awyr Môn, fyddai'n gwella hygyrchedd hanner gorllewinol y rhanbarth yn nhermau defnyddwyr busnes a thwristiaid, gan felly effeithio'n gadarnhaol ar yr economi leol.
- Byddai gwasanaeth i Ddulyn a Belfast o bosib yn gwneud teithio rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon a gogledd Iwerddon yn haws ac yn gwella cysylltedd busnes.
- Byddai gwell cysylltedd â de Cymru, gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon yn agor marchnadoedd newydd ac yn cynyddu gweithgarwch economaidd yn y rhanbarth.

6.2 BEICIO

a) GWYNEDD

i) RHANBARTH TAITH

Llwybrau Beicio Cenedlaethol: Rhanbarth Taith	
Rhif	Llwybr
5	Reading i Gaerdydd
8	Caerdydd i Gaerdydd

- ii) RHANBARTH TRACC
- a) Mae Tracc wedi penderfynu datblygu Strategaeth Cerdded a Beicio ac wedi blaenoriaethu rhaglen fuddsoddi er mwyn siapio cyfeiriad y buddsoddiad a datblygu rhaglen o gynlluniau sy'n bodloni amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol orau.
- b) Mae elfennau strategaeth y ddogfen fel a ganlyn:
- i) Gwella'r isadeiledd cerdded a beicio
 - ii) Darparu cyfleusterau cysylltiedig ar gyfer cerdded a beicio
 - iii) Cefnogi hyfforddiant
 - iv) Hyrwyddo dewisiadau cynaliadwy

Llwybrau Beicio Cenedlaethol: Tracc	
Rhif	Llwybr
8	Caerdydd i Gaerdybi
42	Y Clas-ar-Wy i Gaerloyw
43	Llanfair ym Muallt i Abertawe
81	Aberystwyth i'r Amwythig
82	Porthmadog i Aberteifi

- b) YNYS MÔN
- i) Llwybr Cenedlaethol 566, a elwir hefyd yn Llwybr y Copr, sy'n mynd ar draws gogledd yr ynys.
 - ii) Lôn Las Cefni – llwybr oddi ar y ffordd yn bennaf rhwng Niwbwrch a Llyn Cefni, Bodffordd yn pasio trwy Langefni.
 - iii) Cyswllt Pentre Berw – o Lôn Las Cefni i Bentre Berw (gan osgoi'r A5).
 - iv) Cyswllt rhwng Porthaethwy a Llanfairpwll – ffyrdd tawel, ac oddi ar y ffordd.
 - v) Fali – Caerdybi: oddi ar y ffordd ochr yn ochr â'r A5.

Llwybrau Beicio Cenedlaethol: Rhanbarth Taith	
Rhif	Llwybr
5	Reading i Gaerdybi
8	Caerdydd i Gaerdybi

Beicio – Materion Allweddol

- Mae gan ddefnydd cynyddol o feicio fel dull trafndiaeth y potensial i effeithio'n gadarnhaol ar leihau allyriadau carbon, lleihau lefelau tagfeydd, lleihau'r gofyn am lefydd parcio i geir a chynyddu lefelau iechyd o fewn y boblogaeth.
- O ran ardaloedd gwledig, mae angen cryfhau cysylltedd Llwybrau Beicio Cenedlaethol sy'n mynd ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.
- O ran ardaloedd trefol, mae angen datblygu ymhellach llwybrau beicio sy'n arwain i ganol trefi, gan sicrhau diogelwch y beicwyr a cherddwyr fel ei gilydd.
- Dylid darparu llefydd parcio i feicwyr mewn canol trefi hefyd.
- Dylid ystyried Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn.
- Dylid ystyried cynlluniau beics am ddim, sy'n darparu beics ar gael i'w defnyddio o orsafoedd bws a thrên i leoliadau yng nghanol y

dref.

- Dylai ymgeiswyr ac Awdurdodau Cynllunio Lleol roi ystyriaeth i gynnwys llwybrau beicio ym mhob datblygiad newydd er mwyn annog ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio, yn hytrach na dibynnu'n gyfan gwbl ar gar.
- Dylid ystyried integreiddio pellach o feiciau gyda'r gwasanaethau cludiant teithwyr gan ddefnydd dethol o fysiau a threnau wedi'i pharatoi i gario beiciau.

6.3 GWASANAETHAU FFERI

a). YNYS MÔN

- Ar hyn o bryd mae'r holl draffig sy'n defnyddio'r fferis yng Nghaergybi yn teithio ar y ffordd, ond mae dyhead ymysg awdurdodau lleol Gogledd Cymru trwy gonsortiw Taith i annog cludo llwythi ar reilffyrdd, fel dewis amgen i symud nwyddau ar y ffordd.
- Mae'r cysyniad o ddefnyddio cludiant nwyddau ar reilffyrdd fel pont dir rhwng Gweriniaeth Iwerddon ac Ewrop yn un opsiwn fyddai'n peri lleihad sylweddol yn nifer y symudiadau HGV ar hyd arfordir gogledd Cymru.

Gwasanaethau Fferi – Negeseuon Allweddol

- Dylid cael gwell cysylltiadau o borthladd y fferi yng Nghaergybi i ganol y dref er mwyn annog ymwelwyr i ddefnyddio siopau lleol. Dylid defnyddio'r bont newydd o'r orsaf reilffordd a'r porthladd fel catalydd i gynyddu lefelau cysylltedd â'r dref. Yn ogystal â chreu llwybrau cerdded mwy hygyrch, mae cysylltiad cynhenid rhwng gwelliannau i ganol y dref â ffyniant economaidd Caergybi yn y dyfodol.

6.4 CLUDO NWYDDAU YN RHANBARTH GOGLEDD CYMRU

a). CYFFREDINOL

- Y llwybr mwyaf pwysig ar gyfer cludo nwyddau yng ngogledd Cymru yw llwybr y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN) o Gaergybi i Gaer ar hyd yr A55.
- Swyddogaeth greiddiol y llwybr hwn yw cludo nwyddau i/o Iwerddon trwy Gymru i weddill y DU ac Ewrop.
- Un broblem allweddol i'r rhanbarth yw'r diffyg cyfleusterau i yrrwyr ar hyd y llwybr hwn. Mae tystiolaeth storiol yn dangos bod culfannau ar hyd y ffordd yn llawn lorïau'n parcio dros nos.

Cludiant Nwyddau – Negeseuon Allweddol

- Mae angen archwilio ymhellach i'r potensial i gynyddu rôl y rheilffyrdd wrth gludo nwyddau o Gaergybi i Iwerddon, oherwydd y

gallai datblygiad o'r fath arwain at ostyngiad sylweddol yn y traffig sy'n cludo nwyddau ar y ffordd yn ardal Caergybi, a lleihau'r pwysau ar yr A55.

- Dylai'r derfynfa fferi yng Nghaergybi gael gwell cysylltiadau i ganol y dref er mwyn annog ymwelwyr i ddefnyddio siopau lleol.

6.5 PARCIO

a). MATERION RHANBARTHOL

Caiff gwaith Gorfodaeth Parcio Sifil ei wneud gan yr awdurdodau unigol. Mae prosiect ar y cyd yng ngogledd Cymru yn golygu bod Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Wrecsam yn prosesu eu hysbysiadau trwy Bartneriaeth Prosesu Cosbau Cymru, a gynhelir gan Sir Ddinbych.

Meysydd Parcio Talu ac Arddangos – Ynys Môn					
Maes Parcio	Nifer y Llefeydd			Arhosiad	
	Cyfanswm	Anabl	Bysus	Byr	Hir
Ynys Môn	1278	71	12	3	24
Gwynedd	5083	148	40	16	30
(Arfon)	(1140)	(55)	(0)	(10)	(5)
(Dwyfor)	(1395)	(43)	(9)	(3)	(7)
(Meirionnydd)	(2548)	(50)	(31)	(3)	(18)
Cyfanswm	6361	219	52	19	54

b). GWYNEDD

i). RHANBARTH TAITH

Cynlluniau Cysylltiedig	
Teitl	Manylion
Gorchymyn Traffig Arbrofol	Daeth gorchymyn traffig arbrofol newydd i rym yn Y Maes, Caernarfon yn 2011.
	Ni chaniateir unrhyw barcio ar Y Maes ar wahân i barcio yn yr ardaloedd dynodedig.

ii). RHANBARTH TRACC

- Mae nifer o leoliadau mewn cymunedau gwledig lle gellid gwella cyfleusterau i hybu cyfleoedd i barcio a rhannu.
- Mae'r rhain yn bennaf mewn meysydd parcio ger neuaddau pentref neu feysydd parcio bychain. Yn aml nid yw'r rhain wedi'u hwynebu ac nid oes llawer o ddefnydd ohonynt.
- Gobeithir y gellir datblygu rhwydwaith o'r lleoliadau hyn, gyda chytundeb yr amrywiol ymddiriedolwyr/perchnogion/byrddau rheoli i ddatblygu safleoedd diogel at ddibenion rhannu car.

c). YNYS MÔN

Parcio – Negeseuon Allweddol

- Mae angen Fframwaith Parcio ar gyfer y ddarpariaeth a gorfodaeth yn y dyfodol.
- Dylid darparu cyfleusterau parcio diogel ar gyfer Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- Dylai'r posibilrwydd o ddatblygu cynlluniau Parcio a Theithio yn gysylltiedig â'r gwaith o adeiladu Wylfa Newydd yn cael eu hystyried.
- Gellid hefyd ystyried rheolaeth barcio, gan gynnwys defnyddio ardollau parcio yn y gweithle neu mewn manwerthu, yn benodol er mwyn cynhyrchu refeniw i gefnogi mesurau eraill megis gwasanaethau cludiant cyhoeddus wrth ddatblygu safleoedd masnachol newydd mawr.

6.6 CLUDIANT CYHOEDDUS: BYSUS A BYSUS GWYLIAU

a). CYFFREDINOL

- Mae'r rhanbarth yn cael ei gwasanaethu gan rwydwaith o wasanaethau bws arferol a ddarperir trwy gyfuniad o wasanaethau masnachol a gwasanaethau gaiff eu tendro, sy'n cysylltu aneddiadau mawr gyda'r pentrefi tu allan, ac mae gwasanaethau tref arbennig yn gweithredu yn y mwyafrif o'r trefi yn y rhanbarth.
- Ni all y mwyafrif o'r gwasanaethau hyn gystadlu â'r car preifat o ran amseroedd siwrneiau.
- Mae'r system anhreuliedig o redeg gwasanaethau bws, sy'n bodoli ers 1986, wedi lleihau gallu awdurdodau lleol i gydlynu'r holl wasanaethau bws yn eu hardal, gan nad oes ganddynt unrhyw reolaeth ar wasanaethau masnachol.
- Ar yr adegau prysuraf, caiff nifer o'r gwasanaethau bws eu defnyddio i gludo plant ysgol gan fod dyletswydd ar awdurdodau lleol dan Ddeddf Trafnidiaeth 1985 i wneud y defnydd gorau o wasanaethau bws sy'n bodoli er mwyn gwasanaethu sefydliadau addysgol.

Bysus a Bysus Gwyliau – Negeseuon Allweddol

- Nid yw'n bosib darparu cludiant cyhoeddus i bob ardal yn Ynys Môn a Gwynedd lle mae hygyrchedd yn wael, neu lle nad oes hygyrchedd o gwbl, oherwydd cyfyngiadau daearyddol ac ariannol.
- Er bod manteision i danwydd amgen o ran cynaladwyedd tymor hir, mewn realiti y ffordd fwyaf effeithiol o leihau ôl troed carbon Cymru yn sylweddol yw newid patrymau dulliau trafndiaeth.
- Yn y pen draw'r ffactor pwysicaf yw gwella ansawdd, ystod ac argaeledd dulliau trafndiaeth gynaliadwy.

6.7 CLUDIANT CYHOEDDUS AR REILFFYRDD

a). GWYNEDD

i). RHANBARTH TAITH

- Mae lein Dyffryn Conwy sy'n cysylltu Blaenau Ffestiniog gyda Llandudno yn cael ei gwasanaethu gan chwe thrên bob dydd, sy'n rhoi cyfleoedd cyfyngedig iawn i'r bobl yn y cymunedau hyn deithio ar y lein hon.
- Mae gwasanaeth anaml (tua bob dwy awr) ar hyd lein Arfordir y Cambrian sy'n cysylltu Pwllheli gyda Machynlleth gan fynd trwy Abermaw a Chyffordd Dyfi.
- Er bod cysylltiad rheilffordd i'r mwyafrif o'r canolfannau poblogaeth fawr, mae yna gymunedau pwysig megis Caernarfon sydd wedi colli eu gwasanaethau rheilffordd yn yr 1960au sy'n cyfiawnhau safonau gwell o ran mynediad at gludiant cyhoeddus na'r hyn sydd ar gael heddiw.

ii). RHANBARTH TRACC

- Mae'r rheilffyrdd yn rhanbarth Tracc yn cynnwys Y Brif Lein a Lein Arfordir y Cambrian a Rheilffordd Calon Cymru (nad yw'n gwasanaethu ardal Meirionnydd).
- Mae Lein Dyffryn Conwy yn darparu mynediad i Flaenau Ffestiniog oddi mewn i ardal Tracc.

b). YNYS MÔN

- Mae gwasanaethau rheilffordd yn gweithredu ar hyd Lein Arfordir Gogledd Cymru gyda gwasanaethau yn rhedeg o Gaerdydd i Landudno.
- Mae gwasanaethau'n rhedeg i Lundain, Caerdydd, Manceinion a Birmingham, gyda'r mwyafrif o'r gwasanaethau i Gaerdydd a Birmingham yn gweithredu drwy Wrecsam.
- Mae gwasanaethau o Gaerdydd yn gweithredu bob awr fel y mae'r gwasanaethau o Landudno sy'n rhoi amlder o 30 munud i'r dwyrain o Gyffordd Llandudno.

Rheilffyrdd – Negeseuon Allweddol

- Mae Astudiaeth Strategaeth Rheilffyrdd Gogledd Cymru wedi adnabod cyfleoedd i wella gwasanaethau rheilffordd, darparu gorsafoedd newydd, gwelliannau mynediad ar gyfer dulliau trafndiaeth ar wahân i geir, a manau parcio mewn gorsafoedd.
- Mae nifer o gynigion cyffredinol i wella mynediad ar gyfer dulliau trafndiaeth ar wahân i geir ym mhob gorsaf, gan gynnwys darpariaethau parcio beic diogel ym mhob gorsaf yn rhanbarth Taith a gwelliannau penodol i fynediad i feicwyr, cerddwyr a'r cyhoedd i orsafoedd Bangor, Porthmadog, Llanfairpwll a Chaerdydd. Byddai'r rhain yn cael eu hyrwyddo trwy ddefnyddio arwyddion a brandio safonol, a gellid eu gweithredu fel rhan o strategaeth frandio cludiant cyhoeddus ehangach, sy'n cynnwys yr holl ddulliau a'r isadeiledd cysylltiedig.
- Cynigir gwelliannau parcio ceir yn y tymor byr ar gyfer Rhosneigr.


6.8 PRIFFYRDD A CHERBYDAU

a). GWYNEDD

i). PWYNTIAU CYFFREDINOL

a) CYFFREDINOL

- Yn ôl Adroddiad Gogledd Orllewin Cymru Aseiad Marchnad Tai Lleol Gwaelodlin (2008), mae cyfran uchel o'r bobl sy'n byw ar Ynys Môn yn teithio i Wynedd i weithio.
- Mae tua 7,000 (dros 20.1% o'r boblogaeth oed gweithio) yn byw yn Ynys Môn ac yn gweithio yng Ngwynedd.
- 70% o'r trigolion yn byw ac yn gweithio yn Ynys Môn; dyma'r lefel isaf o hunan-gyfyngiant yng Ngogledd Orllewin Cymru.
- Mae lefel uchel o hunangynhaliath yng Ngwynedd gan fod 91% (47,000) o'r gweithlu yn gweithio o fewn Gwynedd.
- Mae tua 1,000 o'r gweithlu Gwynedd sy'n weddill yn gweithio yn Ynys Môn a 1,000 yng Nghonwy.




b). GWYNEDD

i). PWYNTIAU CYFFREDINOL

- Bu cynnydd amlwg yn nifer yr aelwydydd yng Ngwynedd sydd â mwy nag un cerbyd.
- Mae'r cynnydd yn gyffredinol yn unol â Chymru gyfan.

Nifer y Ceir neu Faniau mewn Aelwyd – Gwynedd



ii). RHANBARTH TAITH

- Mae nodweddion trafndiaeth ardal Gwynedd o'r rhanbarth Taith yn wledig yn bennaf, ac mae'r canolfannau poblogaeth fwyaf wedi'u lleoli ar hyd yr arfordir yng Nghaernarfon a Bangor.
- Mae'r A55 sy'n croesi trwy ardal ogleddol Gwynedd yn ffurfio'r prif lwybr priffordd strategol sy'n cysylltu Porthladd Caerdybi yn y gorllewin gyda'r rhwydwaith traffyrdd yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, ac mae'n rhan o'r llwybr Ewro E22.
- Cyfyngiadau yn bodoli ar Pont Britannia sef y groesfan o'r Afon Menai rhwng y tir mawr ac Ynys Môn lle mae'r A55 yn cael ei ostwng i un lôn i bob cyfeiriad.
- Mae'r A487 o Gaernarfon i Bontnewydd yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith trafndiaeth Gogledd - De. Mae cynllun i wella rhan hon o'r gefnffordd yn cael ei gynnwys yn y blaenoriaethau cyfredol y Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol.

iii). RHANBARTH TRACC

- Mae cyfanswm o 10,609 kilometr o ffordd yng nghanolbarth Cymru (gan gynnwys Gwynedd gyfan) sy'n cynrychioli bron i draean yr holl ffordd yng Nghymru.
- Mae cyfleoedd i oddiweddyd yn brin, sy'n peri amodau gyrru rhwystredig ac amseroedd siwrnai annibynadwy.


iv). A487 CAERNARFON I BONTNEWYDD

- Mae'r A487 o Gaernarfon i Bontnewydd yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith trafndiaeth Gogledd - De. Mae cynllun i wella rhan hon o'r gefnffordd yn cael ei gynnwys yn y blaenoriaethau cyfredol y Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol.
- Cwmni Jones Bros a Balfor Beatty o Ruthun sydd wedi ennill yr hawl ar gyfer y prosiect a gall y gwaith ddechrau diwedd y flwyddyn nesaf.
- Bydd y cynllun 9.8km yn adlinio yr A487 er mwyn gwella dibynadwyedd amseroedd siwrneiau ac i gefnogi datblygiad economaidd yn ardal Arfon.

b). YNYS MÔN

i). PWYNTIAU CYFFREDINOL

- Bu cynnydd amlwg yn nifer yr aelwydydd yn Ynys Môn sydd â mwy nag un cerbyd.
- Ar y cyfan, mae'r cynnydd hwn yn cyd-fynd â Chymru.



c). A55 – PONT BRITANNIA

- Pont Britannia yw'r unig ffordd gerbydau yn llwybr E22 y Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd sy'n ffordd gerbydau un lôn ac mae'n rhwystr arwyddocaol i draffig cymudwyr a thraffig gwyliau.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn arddangos y gwahanol opsiynau ar gyfer ffordd newydd i groesi'r Fenai rhwng mis Tachwedd 2007 a mis Chwefror 2008.
- Yr opsiwn a ffafriwyd oedd pont newydd mwy na un bwa (39%) ac yn ail agos iawn oedd yr opsiwn i gael pont un bwa (31%).

d). FFORDD GYSWLLT GAERWEN

- Mae'r posibilrwydd o gael ffordd gyswllt newydd yng Ngaerwen yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
- Byddai'n arwain at nifer o fuddion sylweddol i'r ardal, gan gynnwys gwell mynediad i safle Parth Menter Gaerwen o'r A55 a lleihau lefel y traffig ar strydoedd preswyl Gaerwen.
- Byddai'r ffordd newydd yn helpu i ddygymod â lefelau traffig uwch yn deillio o ehangu Ystâd Ddiwydiannol Gaerwen.

e). LLANGEFNI FFORDD GYSWLLT

- Bydd ffordd gyswllt newydd yn cysylltu'r Lôn Bryn Cefni bresennol i safle Grŵp Llandrillo-Menai, gan greu cylchfan porth i Langefni ar y A5114.
- Bydd manteision pwysig o'r ffordd gyswllt newydd yn cynnwys mynediad i'r safle Parth Menter a chymorth pellach i dyfu ac ehangu campws Grŵp Llandrillo-Menai gwella. Byddai'r cynllun hefyd yn gwella'r cysylltiadau â ffordd ddeuol yr A55 a goresgyn cyfyngiadau traffig yn ardal ehangach Llangefni.

f). A5025 VALLEY TO AMLWCH

- Bydd y A5025 o'r Fali i Wylfa Newydd yn wynebu cynnydd sylweddol mewn traffig, gan gynnwys cynnydd yn nifer y cerbydau mawr sy'n defnyddio'r ffordd. Mae gan y llwybr nifer o fannau cyfyng, ynghyd a materion amgylcheddol a diogelwch. Yn ogystal, mae angen rhoi ystyriaeth i gyffordd yr A5 / Y Fali.
- Y pedwar prif leoliadau ar y llwybr sydd angen gwelliannau sylweddol yw:
 - A5 / A5205 (Y Fali);
 - A5025 (Llanfachraeth);
 - A5025 (Llanfaethlu);
 - A5025 (Cefn Coch).
- Efallai y bydd angen ystyried gwelliannau ar hyd y llwybr o Amlwch i safle Wylfa Newydd hefyd.
- Gallai nifer y teithiau ar hyd y rhwydwaith ffyrdd i Wylfa Newydd gael ei lleihau trwy greu Hwb Corfforaethol. Gall gweithwyr nad oes angen iddynt fod yn bresennol ar y safle gynnal cyfarfodydd a hyfforddiant yn y Hwb Corfforaethol, a gellid ei gyfuno â chyfleuster Parcio a Theithio i ganiatáu teithio ymlaen i safle'r Wylfa Newydd.

Priffyrdd a Cherbydau – Negeseuon Allweddol

- Gellir datblygu technegau i reoli'r galw a llif y traffig yn lleol trwy ddefnyddio cynlluniau rheoli mynediad lleol sy'n seiliedig ar godi tâl.
- Mae technegau Systemau Trafnidiaeth Ddeallus (ITS) ac arwyddo negeseuon amrywiol wedi'u hen sefydlu yng Nghanolfan Rheoli Traffig Gogledd Cymru ar gyfer monitro a rheoli llif traffig ar y traffyrdd ac yng ngogledd Cymru trwy dwneli'r A55. Gellir defnyddio dulliau o'r fath ar y ddwy ffordd sy'n croesi'r Fenai.

- Mae angen cynnal a chadw prif lwybrau trafndiaeth Gwynedd ac Ynys Môn yn rheolaidd.
- Dylid ystyried cynlluniau parcio a rhannu wrth ymyl yr A55.
- Dylid ystyried gostwng cyfyngiadau cyflymder mewn lleoliadau lle ceir lefel uchel o lif cerdded a beicio.
- Dylid darparu hyfforddiant ar y Rheolau Beicio a Rheolau'r Ffordd Fawr.
- Dylid cymryd mantais o bob cyfle i wella diogelwch ffyrdd.
- Mae Strategaeth Teithiau Mwy Diogel Gogledd Cymru wedi cael ei datblygu yn ogystal â Chynllun Trafnidiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru sy'n adlewyrchu polisiâu cenedlaethol Cymru a'r DU. Mae'r Strategaeth yn cynnig camau gweithredu ar gyfer darpariaethau cyhoeddus a phreifat i gludo teithwyr.
- Dylid ystyried mesurau tawelu traffig ym mhob datblygiad newydd.
- Dylai cynlluniau ffyrdd ymrwymedig penodol gael eu cynnwys o fewn y Cynllun Adnau gan gynnwys ffordd osgoi Bontnewydd - Caernarfon, ffordd gyswilt Llangedfni a gwelliannau'r A5025.

6.9 CERDDED

a). GWYNEDD

- Y strategaeth gyfredol sy'n ymwneud â hawliau tramwy yn Arfon a Dwyfor yw 'Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Gwynedd'.
- Mae nifer o rannau yn rhanbarth Taith yn eithriadol o anghysbell a chanddynt batrymau aneddiadau sy'n wasgaredig iawn.
- Mewn nifer o gymunedau bychain mae diffyg rhwydwaith troedffyrdd sydd wedi'u cysylltu, ac nid yw hynny'n annog pobl i gerdded gan arwain at ddibynnu mwy ar y car preifat.

b). YNYS MÔN

- Mae yna ddarpariaeth o welliannau cerdded ar yr A545 o Borthaethwy i Fiwmares, hyd o 5.2km.

Cerdded – Negeseuon Allweddol

- Mae rhanbarth Taith yn cynnig sawl llwybr cerdded lleol a hirbell, felly mae amrediad o gynlluniau cerdded arloesol wedi'u datblygu i annog cymunedau mwy egnïol a ffyrdd iachach o fyw.
- Mae angen annog pobl i gerdded mwy ac i ddewis a chydabod cerdded fel modd o deithio sy'n hyfyw, o ran cynaliadwyedd ac o ran iechyd.
- Gellir cysylltu llwybrau arfordirol hirbell i ddatblygiad parhaus Llwybr Arfordir Cymru.
- Gallai hawliau tramwy trefol gael eu gwella er mwyn hybu rhwydwaith trafndiaeth cerdded mewn trefi a dinasoedd.

7.0 CASGLIADAU

7.1 AMCANION DATBLYGU CYNALIADWY

- Ni all y mater o gludiant cynaliadwy ei ystyried yn nhermau'r system cynllunio defnydd tir yn unig. Mae dogfennau eraill megis Cynlluniau Trafnidiaeth Ranbarthol a chyrff megis Taith a Tracc efo rôl bwysig i'w chwarae wrth wneud y system yn llawer mwy hygyrch, diogel a chynaliadwy. Felly, dylai'r CDLI ar y Cyd, o ran trafndiaeth, gael ei ystyried fel elfen o fframwaith ehangach. Rôl benodol y cynllun yw gosod y sylfaen o welliant tymor hir a fydd yn arwain at leihau'r angen i deithio.
- Prif rôl y CDLI ar y Cyd fydd sicrhau y caiff pob datblygiad newydd ei gyfeirio at leoliadau cynaliadwy sy'n cysylltu'n hawdd i ganolfannau a llwybrau trafndiaeth.
- Mae'n bwysig nodi na ellir datrys problemau trafndiaeth yn llawn yn y byrdymor oherwydd cyfyngiadau yn sgil patrymau hanesyddol datblygu a symud. Mae'r cyfyngiadau mwyaf yn bodoli yn yr ardaloedd gwledig anghysbell, lle yn draddodiadol, mae mynediad i wasanaethau a chyfleusterau lleol wedi bod yn gyfyngedig, ac wedi arwain at ddibynnu'n helaeth ar geir preifat. Mae hyn yn arbennig o wir yn ardaloedd gwledig Ynys Môn, oherwydd natur wasgaredig aneddleoedd bychain.
- Mae newid patrymau teithio hanesyddol yn her sylweddol y gellir dim ond eu cyflawni yn llawn yn y tymor hir ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol megis TAITH a TraCC.
- Fodd bynnag, rhaid peidio edrych ar y sefyllfa mewn termau hollol negyddol, oherwydd y ffaith bod cyrff megis TAITH a TraCC, ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn gwneud camau sylweddol, yn seiliedig ar y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, i wella system drafndiaeth yng ngogledd-orllewin Cymru.
- Er bod nifer o'r materion sy'n ymwneud â thrafndiaeth yn disgyn y tu allan i gylch gorchwyl y system gynllunio defnydd tir, gellir defnyddio'r CDLI ar y Cyd fel modd o gyfeirio datblygiadau newydd i leoliadau cynaliadwy a sicrhau ansawdd uchel eu dyluniad, o ran eu gosodiad a'u cyfleusterau. Pe bai modd cyflawni'r ddau nod hwn yn gyson drwy gydol cyfnod y CDLI ar y Cyd, mae'n fwy tebygol y caiff dymuniadau'r Cynlluniau Trafnidiaeth Ranbarthol eu cyflawni.

7.2 POLISI'AU A DYNODIADAU SAFLE'R CDLI AR Y CYD

- Dylid ystyried sicrhau bod datblygiadau newydd yn hyrwyddo dulliau teithio sy'n gynaliadwy, o ran eu lleoliad a'u dyluniad.
- Dylid hefyd ystyried annog datblygiadau yn y dyfodol sy'n cynyddu'r cysylltedd rhwng gwahanol ddulliau teithio a llwybrau teithio presennol.
- Dylid hefyd ystyried pa mor agos yw cyfleusterau gwasanaethau cludiant cyhoeddus, megis safleoedd bws, yn y broses ffurfio polisiâu.
- Nodi a diogelu cynlluniau gwella priffyrdd ymroddedig.

8.0 CYFEIRIADAU

8.1 CYHOEDDIADAU

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY ET AL (2015) *Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru*. Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru

CTA UK (2007) *Gwynedd and Isle of Anglesey Community Transport Strategy (Produced for Gwynedd and Isle of Anglesey Councils)*. Community Transport Association

CYNGOR GWYNEDD (2009) *Dogfen Weledigaeth – Trafnidiaeth Gynaliadwy Dinas Bangor*. Cyngor Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD (2009) *Crynodeb Gweithredol – Trafnidiaeth Gynaliadwy Dinas Bangor*. Cyngor Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD (2009) *Y Cynllun Datblygu Unedol*. Cyngor Gwynedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN (1996) *Cynllun Lleol*. Cyngor Sir Ynys Môn

CYNGOR SIR YNYS MÔN (2005) *Y Cynllun Datblygu Unedol*. Cyngor Sir Ynys Môn

TAITH (2009) *Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru*. Taith

TRACC (2009) *Trafnidiaeth Canolbarth Cymru - Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol. Trafnidiaeth Canolbarth Cymru*

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2008) *Cynllun Gweithredu Môn a Menai*. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2010) *Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol*. Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2007) *Nodyn Cyngor Technegol 7: Trafnidiaeth*. Llywodraeth Cynulliad Cymru

8.2 GWEFANNAU

YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN AR Y CYD TRAFNIDIAETH LEOL CANOLBARTH CYMRU (2014)
<http://www.tracc.gov.uk/index.php?id=117&L=1>

YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN AR Y CYD TRAFNIDIAETH LEOL GOGLEDD CYMRU (2014)
<http://www.taith.gov.uk/taith-joint-board/consultation/>

TAITH
<http://www.taith.gov.uk/>

TRACC
<http://www.tracc.gov.uk/>